

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-07-02(t.3)

Dyddiad: Dydd Mercher 13 Mawrth 2002
Lleoliad: Ystafell Gynadledda 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Teitl: Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol

Diben

1. Nodi a rhoi cyfle i drafod y prif themâu a godwyd yn Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2001-02, *Iechyd yng Nghymru*.

Crynodeb ac Argymhellion

2. Nod Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol 2001-02, *Iechyd yng Nghymru*, yw darparu gorolwg o iechyd pobl Cymru a'r gwaith sydd ar y gweill ledled Cymru i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd.

3. Mae'n amlwg o'r Adroddiad bod gan Gymru o hyd ychydig o ffordd i fynd cyn y bydd iechyd ei phobl yn cyfateb i'r gorau yn Ewrop. Dengys yr Adroddiad fod angen i glefyd y galon a chanser aros fel blaenoriaeth i weithredu arnynt ac mae'n tynnu sylw at faterion iechyd fel cyfraddau cynyddol rhai heintiau a drosglwyddir drwy ryw. Mae'r Adroddiad hefyd yn tanlinellu y bydd angen ymroddiad parhaus pobl, cymunedau a sefydliadau Cymru er mwyn gweithredu i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd. Y bwriad yw y bydd y prif themâu a godwyd yn yr Adroddiad yn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth iechyd y cyhoedd newydd.

Cefndir

4. Mae Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol ar gyfer 2001-02 ynghlwm yn 'doc 1' a'r llyfryn cryno yn 'doc 2'. Dyma ail adroddiad y Prif Swyddog Meddygol ar iechyd yng Nghymru ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd ei lansio mewn cynhadledd i'r wasg ddydd Llun 11 Mawrth 2002 ac mae ar gael mewn fformat dwyieithog i'w ddsbarthu'n eang neu ar y rhyngwyd (yn Gymraeg):

www.cymru.gov.uk/subihealth/content/reports/cmo2002-w.pdf

ac (yn Saesneg):

www.wales.gov.uk/subihealth/content/reports/cmo2002-e.pdf

5. Nid yw Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol yn ofyniad statudol ond mae'n darparu ffocws proffesiynol ar amryw o faterion sy'n gysylltiedig â iechyd. Mae'n cyflwyno adroddiad ar y corff o

wybodaeth ar iechyd ac anghydraddoldebau mewn iechyd pobl Cymru ac yn ychwanegu ato, ac yn dangos bod:

- Marwolaethau ar y cyfan wedi gostwng yn raddol ers 1990. Mae gan ddynion gyfraddau marwolaeth uwch, a disgwyliad oes byrrach na merched.
- Afiechydon cylchrediad y gwaed (clefyd coronaidd y galon a strôc yn bennaf) yw'r prif achos marwolaeth, gyda chanser i ddilyn.
- Mae amrywiad daearyddol sylweddol mewn marwolaethau yng Nghymru. Mae cyfraddau marwolaeth yn y pum ward etholaethol mwyaf difreintiedig 25 y cant yn uwch nag yn y pum ward leiaf difreintiedig.
- Disgynnodd cyfraddau marwolaeth ymysg babanod hyd at ddechrau'r 1990au ond maent wedi amrywio ers hynny.
- Cynyddodd cyfraddau cofrestru canser rywfaint ar ddechrau'r 1990au, ond awgryma ffigurau dros dro o flynyddoedd diweddar nad yw'r cynnydd wedi'i gynnal.
- Mae cyfraddau rhai heintiau a drosglwyddir drwy ryw, fel gonoroëa a chlamydia, yn cynyddu.
- Mae cyfraddau marwolaeth yng Nghymru yn uwch yn gyffredinol nag yn Lloegr ond yn is nag yn yr Alban.
- Mae disgwyliad oes Cymru ddwy neu dair blynedd yn is na'r rhai gorau yn Ewrop, ac mae cyfraddau marwolaeth yn gymharol uchel.
- Bu'r cynnydd yn erbyn y targedau cynnydd mewn iechyd presennol yn gymysg.

6. Mae'r Adroddiad yn amlygu'r materion yn yr ymgyrch yng Nghymru i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys:

- Y galw cynyddol am wasanaethau iechyd sy'n deillio, er enghraifft, o arloesedd mewn triniaeth feddygol, disgwyliadau cynyddol y cyhoedd o ofal iechyd a newid yn y boblogaeth.
- Recriwtio a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a datblygu'r agenda ansawdd gofal a amlinellir yn Adroddiad Ymchwiliad Ysbyty Brenhinol Bryste.
- Datblygu gwasanaethau diogelu'r cyhoedd i sicrhau gwyliadwriaeth barhaus yn y frwydr yn erbyn afiechydon heintus, i ymdrin yn well â phryderon ynglyn â dylanwad datblygiadau amgylcheddol, amaethyddol ac eraill ar iechyd dynol, a chynyddu gwybodaeth gyhoeddus a hyder mewn dulliau diogelu'r cyhoedd.
- Amrywiaeth a chymhlethdod materion iechyd mewn plentyndod sy'n gofyn am gydweithrediad agos rhwng plant, eu rhieni a gweithwyr proffesiynol, cyfranogiad llawer o asiantaethau, a staff a chyfleusterau arbenigol iawn.
- Yr angen i adlewyrchu materion iechyd a lles cymunedau mewn ardaloedd gwledig.
- Y galw parhaus am wybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n berthnasol ac amserol i gwrdd ag anghenion y GIG ac ymestyn yr agenda iechyd.

7. Mae'r Adroddiad yn tanlinellu'r angen am ymagwedd eang i wella iechyd pobl Cymru, gan gynnwys mynd i'r afael â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n penderfynu ar iechyd. Awgryma y bydd angen y canlynol ar yr ymagwedd eang hon at iechyd, er enghraifft:

- Ymrwymiad o amrywiaeth o feysydd polisi (er enghraifft, tai, trafnidiaeth ac addysg) ac amrywiaeth o sefydliadau (fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, GIG Cymru, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol).
- Y defnydd ehangach o asesiad sy'n dylanwadu ar iechyd, datblygu offer i hwyluso gweithio aml-sector a chymhwyso sgiliau iechyd y cyhoedd yn ehangach.
- Llywodraeth leol i ddatblygu ymagwedd gorfforaethol at iechyd a lles a chymryd cyfleoedd i ddatblygu posibiliadau iechyd ei gwasanaethau (er enghraifft, gweithredu canolfannau hamdden fel lleoliadau ar gyfer hyrwyddo iechyd, gwella diogelwch cymunedol a gostwng allgáu cymdeithasol).
- Ystyried gwella gallu'r sector gwirfoddol i weithio mewn partneriaeth â GIG Cymru, llywodraeth leol ac eraill.

8. Dengys yr Adroddiad hefyd bod llawer o weithgareddau yn datblygu yng Nghymru i gefnogi'r ymgyrch dros well iechyd a gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd. Ymysg y mentrau a drafodwyd yn yr Adroddiad mae'r Gronfa Anghydraddoldebau mewn Iechyd, Rhaglen Ymchwil Gweithredu Iechyd Cynaliadwy (SHARP), Canolfannau Byw'n Iach a Rhwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd Cymru.

Cydymffurfio

9. Mae Deddf y Weinyddiaeth Iechyd 1919 yn cwmpasu gweithredu sy'n ffafrio iechyd pobl. Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn cwmpasu gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Trosglwyddwyd pwerau ar gyfer y ddau i'r Cynulliad a chânt eu dirprwyo i Ysgrifennydd y Cynulliad a'i staff. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi pŵer i'r Cynulliad wneud unrhyw beth i hwyluso'r gwaith o weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau (Adran 40) neu sy'n gydnaws neu'n atodol iddynt. Ni cheir unrhyw faterion rheoleidd-dra na phriodoldeb.

Goblygiadau ariannol

10. Nid yw'n berthnasol i'r papur hwn.

Gweithredu ar ran y Pwyllgor

11. Gwahoddir y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi eu sylwadau ar yr adroddiad sydd ynghlwm.

Cyswllt

Dr Ruth Hall

Prif Swyddog Meddygol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: (029) 20823911 Ffacs: (029) 20825242

Ebost: Ruth.Hall@wales.gsi.gov.uk